

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) Curriculum and Assessment (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—

The Bill will be considered in the following order—

| | |
|------------------|------------------|
| Sections 2 – 8 | Adrannau 2 – 8 |
| Section 1 | Adran 1 |
| Sections 10 – 18 | Adrannau 10 – 18 |
| Section 9 | Adran 9 |
| Sections 20 – 27 | Adran 20 – 27 |
| Section 19 | Adran 19 |
| Sections 29 – 32 | Adrannau 29 – 32 |
| Schedule 1 | Atodlen 1 |
| Sections 33 – 38 | Adrannau 33 – 38 |
| Section 28 | Adran 28 |
| Sections 40 – 50 | Adrannau 40 – 50 |
| Section 39 | Adran 39 |
| Sections 52 – 57 | Adran 52 – 57 |
| Section 51 | Adran 51 |
| Sections 58 – 59 | Adrannau 58 – 59 |



| | |
|------------------|------------------|
| Sections 61 – 63 | Adrannau 61 – 63 |
| Section 60 | Adran 60 |
| Sections 64 – 69 | Adrannau 64 – 69 |
| Schedule 2 | Atodlen 2 |
| Sections 70 – 80 | Adrannau 70 – 80 |
| Long title | Teitl hir |

Sian Gwenllian 41

Section 3, page 2, line 8, after 'Humanities', insert '(including an understanding of the History of Wales in all of its diversity, including Black and People of Colour History)'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 7, ar ôl 'Dyniaethau', mewnosoder '(gan gynnwys dealltwriaeth o Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw)'.

Kirsty Williams 1

Section 3, page 2, line 12, leave out 'elements are mandatory' and insert 'are mandatory elements'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 12, hepgorer 'elfennau a ganlyn yn fandadol' a mewnosoder 'canlynol yn elfennau mandadol'.

Suzy Davies 50

Section 3, page 2, after line 13, insert –

'Lifesaving Skills and First Aid'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 16, ar ôl 'Saesneg', mewnosoder –

'Sgiliau Achub Bywyd a Chymorth Cyntaf'.

Suzy Davies 51

Section 3, page 2, line 14, after 'Education', insert '(including Menstrual Wellbeing Education)'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 13, ar ôl 'Rhywioldeb', mewnosoder '(gan gynnwys Addysg Lles Mislifol)'.

Sian Gwenllian 42

Section 3, page 2, after line 15, insert –

'The History of Wales in all of its diversity, including Black and People of Colour History'.



Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

‘Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw’.

Kirsty Williams

2

Section 3, page 2, after line 16, insert –

- ‘() But English is not to be treated as a mandatory element, for the purposes of this Act, for a curriculum within subsection (4).
- () A curriculum is within this subsection if it is –
- (a) a curriculum for registered pupils at a school who have not completed the school year in which the majority of the pupils in their class attain the age of 7;
 - (b) a curriculum for funded non-maintained nursery education;
 - (c) a curriculum for education provided under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56) (exceptional provision of education at pupil referral units or elsewhere: Wales) for pupils or children who have not attained the age of 7.’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- ‘() Ond nid yw Saesneg i’w thrin fel elfen fandadol, at ddibenion y Ddeddf hon, ar gyfer cwricwlwm o fewn is-adran (4).
- () Mae cwricwlwm o fewn yr is-adran hon os yw’n –
- (a) cwricwlwm i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol nad ydynt wedi cwblhau’r flwyddyn ysgol y mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn eu dosbarth yn cyrraedd 7 oed ynddi;
 - (b) cwricwlwm ar gyfer addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
 - (c) cwricwlwm ar gyfer addysg a ddarperir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) (darpariaeth eithriadol o addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn mannau eraill: Cymru) i ddisgyblion neu blant nad ydynt wedi cyrraedd 7 oed.’.

Kirsty Williams

3

Section 3, page 2, line 19, leave out ‘the elements listed in subsection (2) (but this is subject to sections 26 and 27)’ and insert ‘be interpreted in accordance with this section’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 19, hepgorer ‘yn gyfeiriadau at yr elfennau a restrir yn is-adran (2) (ond mae hyn yn ddarostyngedig i adrannau 26 a 27)’ a mewnosoder ‘i’w dehongli yn unol â’r adran hon’.



Sian Gwenllian 43

Section 6, page 2, after line 32, insert –

- ‘() The What Matters Code must include an understanding of the History of Wales in all of its diversity, including Black and People of Colour History, as a key concept for the Humanities area of learning and experience.’

Adran 6, tudalen 2, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i God yr Hyn sy’n Bwysig gynnwys dealltwriaeth o Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw, fel cysyniad allweddol ar gyfer maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau.’

Suzy Davies 52

Section 6, page 2, after line 32, insert –

- ‘() The What Matters Code must include an understanding of Lifesaving Skills and First Aid as a key concept for the Health and Well-being area of learning and experience.’

Adran 6, tudalen 2, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i God yr Hyn sy’n Bwysig gynnwys dealltwriaeth o Sgiliau Achub Bywyd a Chymorth Cyntaf fel cysyniad allweddol ar gyfer y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles.’

Suzy Davies 53

Section 8, page 3, after line 20, insert –

- ‘() The RSE Code must include Menstrual Wellbeing as a theme or matter that is to be encompassed by the mandatory element of Relationships and Sexuality Education.’

Adran 8, tudalen 3, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r Cod ACRh gynnwys Lles Mislifol yn thema neu’n fater sydd i’w gwmpasu gan elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.’

Suzy Davies 54

Section 8, page 3, after line 24, insert –

- ‘() The first RSE Code must be issued not later than 31 March 2022.’

Adran 8, tudalen 3, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r Cod ACRh cyntaf gael ei ddyroddi heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth 2022’.



Sian Gwenllian

44

Page 3, after line 25, insert a new section –

[] The Code for Teaching Welsh on a Single Continuum

- (1) The Welsh Ministers must issue a code (the “Code for Teaching Welsh on a Single Continuum” (the “TWSC Code”)) which sets out how a curriculum is to make provision for teaching Welsh on a single continuum.
- (2) A curriculum does not encompass the mandatory element of Welsh unless it accords with the provision in the TWSC Code.
- (3) Teaching and learning does not encompass the mandatory element of Welsh unless it accords with the provision in the TWSC Code.
- (4) For further provision about the TWSC Code, see section 72.’.

Tudalen 3, ar ôl llinell 25, mewnosoder adran newydd –

[] Y Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwmm

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y “Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwmm” (y “Cod AGUC”)) sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar un continwmm.
- (2) Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu elfen fandadol y Gymraeg oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod AGUC.
- (3) Nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen fandadol y Gymraeg oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod AGUC.
- (4) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod AGUC, gweler adran 72.’.

Suzy Davies

55

Section 11, page 4, at the beginning of line 25, insert ‘Subject to subsection [*subsection to be inserted by amendment 57*]’.

Adran 11, tudalen 4, ar ddechrau llinell 28, mewnosoder ‘Yn ddarostyngedig i is-adran [*yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 57*]’.

Suzy Davies

56

Section 11, page 4, line 30, after ‘25’, insert –

’, and

- (a) the governing body has consulted parents of the school’s pupils on the provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education’.



Adran 11, tudalen 4, llinell 34, ar ôl '25', mewnosoder –

, a

- (a) bod y corff llywodraethu wedi ymgynghori â rhieni disgyblion yr ysgol am y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'.

Suzy Davies

57

Section 11, page 4, after line 30, insert –

- '() The headteacher and governing body may delay adoption of the curriculum designed under section 10 for a period of not more than 12 months, if they are satisfied that –
 - (a) it is reasonable to do so in order to complete any work necessary to prepare for the enactment of this Act and which has been delayed as a result of coronavirus, and
 - (b) no pupil at the school will be disadvantaged as a result of the delay.
- () In this section "coronavirus" means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2).
- () Subsections 3 to 5 expire at the end of the day on 31 August 2023 unless extended by regulations.'

Adran 11, tudalen 4, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- '() Caiff pennaeth a chorff llywodraethu oedi mabwysiadu'r cwricwlwm a gynllunnir o dan adran 10 am gyfnod o ddim mwy na 12 mis, os ydynt yn fodlon –
 - (a) ei bod yn rhesymol gwneud hynny er mwyn cwblhau unrhyw waith sy'n angenrheidiol i baratoi ar gyfer deddfiad y Ddeddf hon ac sydd wedi ei oedi o ganlyniad i'r coronafeirws, a
 - (b) na fydd unrhyw ddisgybl yn yr ysgol o dan anfantais o ganlyniad i'r oedi.
- () Yn yr adran hon, ystyr "coronafeirws" yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).
- () Daw is-adrannau 3 i 5 i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Awst 2023 oni bai y'u hestynnir drwy reoliadau.'

Suzy Davies

58

Section 12, page 5, after line 11, insert –

- '() Before the head teacher and governing body revise provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education, the governing body must consult parents of the school's pupils.'

Adran 12, tudalen 5, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

- '() Cyn i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ddiwygio'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â rhieni disgyblion yr ysgol.'



Suzy Davies

59

Section 15, page 6, line 2, after '25', insert—

, and

- (a) the provider of funded non-maintained nursery education has consulted parents of children for whom that education is provided, on the provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education'.

Adran 15, tudalen 6, llinell 3, ar ôl '25', mewnosoder—

, a

- (a) bod y darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wedi ymgynghori â rhieni plant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer, am y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'.

Suzy Davies

60

Section 16, page 6, after line 22, insert—

- '(7) Before a provider of funded non-maintained nursery education revises provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education, the provider must consult parents of children for whom that education is provided.'

Adran 16, tudalen 6, ar ôl llinell 23, mewnosoder—

- '(7) Cyn i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ddiwygio'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhaid i'r darparwr ymgynghori â rhieni'r plant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer.'

Sian Gwenllian

45

Section 24, page 7, after line 30, insert—

- '() The provision for teaching and learning encompassing the Humanities area of learning and experience must promote an understanding of the History of Wales in all of its diversity, including Black and People of Colour History.'

Adran 24, tudalen 7, ar ôl llinell 33, mewnosoder—

- '() Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau hyrwyddo dealltwriaeth o Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Pobl Dduon a Phobl Groenliw.'



Suzy Davies

61

Section 24, page 8, line 3, after 'children', insert –

, and

- (a) encourage pupils and children to have regard to the value of family life'.

Adran 24, tudalen 8, llinell 2, ar ôl 'blant', mewnosoder –

, a

- (a) annog disgyblion a phlant i roi sylw i werth bywyd teuluol'.

***Kirsty Williams**

4

Page 8, line 33, leave out section 26.

Tudalen 8, llinell 36, hepgorer adran 26.

***Kirsty Williams**

5

Page 9, line 16, leave out section 27.

Tudalen 9, llinell 17, hepgorer adran 27.

Suzy Davies

85

Schedule 1, page 40, leave out lines 18 to 26 and insert –

'() The provision must also have been designed having regard to –

- (a) provisions of the school's trust deed that relate to teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, or
- (b) if there are no such provisions, the tenets of the religion or religious denomination specified in relation to the school in an order under section 68A of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).'

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.

Atodlen 1, tudalen 40, hepgorer llinellau 18 hyd at 28 a mewnosoder –

'() Rhaid bod y ddarpariaeth hefyd wedi ei chynllunio gan roi sylw i –

- (a) darpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
- (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).'

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio'r ddarpariaeth.



Suzy Davies

86

Schedule 1, page 40, line 29, leave out –

‘accord –

- (a) with any provisions of the school’s trust deed that relate to teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, or
 - (b) if there are no such provisions, with the tenets of the religion or religious denomination specified in relation to the school in an order under section 68A of the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31).
- (3) Sub-paragraph (4) applies in those cases where the provision required under sub-paragraph (2) is not provision that accords with the agreed syllabus.
- (4) In those cases, the curriculum must also make additional provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Religion, Values and Ethics that does accord with’

and insert –

‘have been designed having regard to –

- (a) provisions of the school’s trust deed that relate to teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, or
 - (b) if there are no such provisions, with the tenets of the religion or religious denomination specified in relation to the school in an order under section 68A of the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31).
- () The provision must also have been designed having regard to’.

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.

Atodlen 1, tudalen 40, llinell 32, hepgorer –

‘i’r ddarpariaeth gyd-fynd –

- (a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy’n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
 - (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o’r fath, â daliadau’r grefydd neu’r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â’r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).
- (3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo’r ddarpariaeth sy’n ofynnol o dan is-baragraff (2) yn ddarpariaeth sy’n cyd-fynd â’r maes llafur cytunedig.
- (4) Yn yr achosion hynny, rhaid i’r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy’n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd yn cyd-fynd â’r’

a mewnosoder –

‘bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i –



- (a) darpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
 - (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).
- () Rhaid bod y ddarpariaeth hefyd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r'.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

Kirsty Williams

15

Schedule 1, page 41, line 7, leave out 'does accord with' and insert 'must have been designed having regard to'.

Atodlen 1, tudalen 41, llinell 8, hepgorer 'sydd yn cyd-fynd â'r' a mewnosoder 'y mae rhaid ei bod wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r'.

Suzy Davies

87

Schedule 1, page 41, line 24, leave out –

, except in the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies.

- (3) In the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies, the teaching and learning must be that for which provision is made in the curriculum under paragraph 3(3) (provision that accords with trust deed etc).
- (4) This sub-paragraph applies to a pupil if a parent of the pupil requests that the teaching and learning be that for which provision is made in the curriculum under paragraph 3(3) (provision that accords with'

and insert –

'and paragraph [*sub-paragraph to be inserted by amendment 85*] (provision designed having regard to'.

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.



Atodlen 1, tudalen 41, llinell 26, hepgorer –

‘, ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

(3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc).

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r

a mewnosoder –

‘a pharagraff [yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 85] (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

Suzy Davies

88

Schedule 1, page 42, line 2, leave out –

‘that accords with trust deed etc), except in the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies.

(3) In the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies, the teaching and learning must be that for which provision is made in the curriculum in accordance with paragraph 4(3) (provision that accords with agreed syllabus).

(4) This sub-paragraph applies to a pupil if a parent of the pupil requests that the teaching and learning be that for which provision is made in the curriculum in accordance with paragraph 4(3) (provision that accords with

and insert –

‘designed having regard to trust deed etc), and paragraph [sub-paragraph to be inserted by amendment 86] (provision designed having regard to’.

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.



Atodlen 1, tudalen 42, llinell 2, hepgorer –

'sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

- (3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig).
- (4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r

a mewnosoder –

'sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r weithred ymddiriedolaeth etc), a pharagraff [yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 86] (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r'.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

Kirsty Williams

16

Schedule 1, page 42, line 6, leave out 'that accords with' and insert 'designed having regard to'.

Atodlen 1, tudalen 42, llinell 6, hepgorer 'sy'n cyd-fynd â'r' a mewnosoder 'sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r'.

Kirsty Williams

17

Schedule 1, page 42, line 9, leave out 'that accords with' and insert 'designed having regard to'.

Atodlen 1, tudalen 42, llinell 9, hepgorer 'sy'n cyd-fynd â'r' a mewnosoder 'sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r'.

Suzy Davies

89

Schedule 1, page 42, after line 9, insert –

'PART []

COMPLAINTS ABOUT RVE PROVISION

Complaints

- [] The governing body of a maintained school must publicise, or make arrangements to publicise, the procedure for a pupil or their parent to make a complaint about the provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Religion, Values and Ethics.'



Atodlen 1, tudalen 42, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

'RHAN []

CWYNION YNGHYLCH Y DDARPARIAETH CGM

Cwynion

[] Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyhoeddi, neu wneud trefniadau i gyhoeddi, y weithdrefn i ddisgybl neu ei riant wneud cwyn am y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.'

Suzy Davies

62

Section 42, page 17, after line 13, insert –

- '() At the same time as they publish the direction, the Welsh Ministers must lay a statement before Senedd Cymru which sets out –
- (a) the purpose of the direction, and
 - (b) any consultation that has taken place before the direction was given.'

Adran 42, tudalen 17, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- '() Ar yr un pryd ag y byddant yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Senedd Cymru sy'n nodi –
- (a) diben y cyfarwyddyd, a
 - (b) unrhyw ymgynghoriad sydd wedi digwydd cyn i'r cyfarwyddyd gael ei roi.'

Suzy Davies

63

Section 48, page 22, line 1, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 48, tudalen 22, llinell 1, hepgorer 'Caiff rheoliadau' a mewnosoder 'Rhaid i reoliadau'.

Suzy Davies

64

Section 48, page 22, line 1, after 'section', insert –

- ', including provision for time-limits.
- (7) Regulations under subsection (6) must be made within 6 months of the commencement of this section'.

Adran 48, tudalen 22, llinell 2, ar ôl 'hon', mewnosoder –

- ', gan gynnwys darpariaeth ar gyfer terfynau amser.
- (7) Rhaid gwneud rheoliadau o dan is-adran (6) o fewn 6 mis i gychwyn yr adran hon'.



Suzy Davies

65

Page 22, after line 30, insert a new section –

[] Overarching duties

- (1) In exercising their functions under this Part, the persons listed in subsection (2) must –
 - (a) have regard to the ability, aptitude and existing level of learning of an individual pupil or child, and
 - (b) take all reasonable steps to provide a range of learning options and experiences for that pupil or child which will help that pupil or child progress in line with their potential.
- (2) Those persons are –
 - (a) the teacher in charge of a pupil referral unit;
 - (b) the management committee for a pupil referral unit;
 - (c) a person who provides teaching and learning for a child, otherwise than at a maintained school, maintained nursery school or pupil referral unit, by virtue of arrangements made under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56);
 - (d) a local authority in Wales.’.

Tudalen 22, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswyddau hollgyffredinol

- (1) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hwn, rhaid i’r personau a restrir o dan is-adran (2) –
 - (a) rhoi sylw i allu, dawn a lefel dysgu bresennol disgybl neu blentyn unigol, a
 - (b) cymryd pob cam rhesymol i ddarparu ystod o opsiynau a phrofiadau dysgu i’r disgybl neu’r plentyn hwnnw a fydd yn helpu’r disgybl neu’r plentyn hwnnw i wneud cynnydd yn unol â’i botensial.
- (2) Y personau hynny yw –
 - (a) yr athro neu’r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
 - (b) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
 - (c) person sy’n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);
 - (d) awdurdod lleol yng Nghymru.’.

Suzy Davies

66

Section 52, page 23, line 18, after ‘pupils’, insert –

’, and

- (a) encourage pupils and children to have regard to the value of family life’.



Adran 52, tudalen 23, llinell 17, ar ôl 'ddisgyblion', mewnosoder –

, a

(a) annog disgyblion a phlant i roi sylw i werth bywyd teuluol'.

Suzy Davies

67

Section 52, page 23, after line 24, insert –

'(7) The teacher in charge of a pupil referral unit must publicise or make arrangements to publicise the procedure for making a complaint about the curriculum for the unit.'

Adran 52, tudalen 23, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

'(7) Rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion gyhoeddi neu wneud trefniadau i gyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn am y cwricwlwm ar gyfer yr uned.'

Suzy Davies

68

Section 55, page 25, after line 14, insert –

'(6) A local authority that makes arrangements under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56) to provide education for a child otherwise than at a pupil referral unit must publicise or make arrangements to publicise the procedure for making a complaint about a curriculum secured under this section.'

Adran 55, tudalen 25, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

'(6) Rhaid i awdurdod lleol sy'n gwneud trefniadau o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) i ddarparu addysg ar gyfer plentyn ac eithrio mewn uned cyfeirio disgyblion gyhoeddi neu wneud trefniadau i gyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn ynghylch cwricwlwm a ddiogelir o dan yr adran hon.'

Kirsty Williams

6

Section 58, page 26, line 6, leave out 'may' and insert 'must'.

Adran 58, tudalen 26, llinell 6, hepgorer 'Caiff rheoliadau' a mewnosoder 'Rhaid i reoliadau'.

Suzy Davies

69

Page 27, after line 25, insert a new section –

[] Progression targets: the mandatory cross-curricular skills

The Welsh Ministers must by regulations make such provision as they consider appropriate to require the governing bodies of maintained schools to secure that annual targets are set in respect of the progression of pupils in the mandatory cross-curricular skills.'



Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

[] Targedau cynnydd: y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol

Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth sy'n briodol yn eu barn hwy i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod targedau blynyddol yn cael eu gosod mewn perthynas â chynnydd disgyblion yn y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.'

Kirsty Williams

18

Section 62, page 28, line 23, leave out 'Great Britain' and insert 'Wales'.

Adran 62, tudalen 28, llinell 23, hepgorer 'ym Mhrydain Fawr' a mewnosoder 'yng Nghymru'.

Kirsty Williams

19

Section 62, page 28, line 25, leave out 'Great Britain' and insert 'Wales'.

Adran 62, tudalen 28, llinell 25, hepgorer 'ym Mhrydain Fawr' a mewnosoder 'yng Nghymru'.

Kirsty Williams

20

Section 62, page 28, line 27, leave out 'Great Britain' and insert 'Wales'.

Adran 62, tudalen 28, llinell 27, hepgorer 'ym Mhrydain Fawr' a mewnosoder 'yng Nghymru'.

Suzy Davies

70

Page 29, after line 2, insert a new section –

[] Curriculum requirement: Relationships and Sexuality Education

- (1) The head teacher of a maintained school must ensure that teaching and learning in Relationships and Sexuality Education is provided at the school for pupils who request it.
- (2) The head teacher is to be treated as complying with subsection (1) if the teaching and learning is provided at the school at a time or times which are convenient for the majority of the pupils who have requested it.
- (3) Teaching and learning provided under this section must encourage pupils to have regard to the value of family life.
- (4) The governing body of a maintained school must exercise its functions with a view to ensuring that the teaching and learning in Relationships and Sexuality Education is provided in accordance with this section.'



Tudalen 29, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

[] Gofyniad cwricwlwm: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- (1) Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir sicrhau y darperir addysgu a dysgu mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n gofyn amdano.
- (2) Mae'r pennaeth i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio ag is-adran (1) os darperir yr addysgu a dysgu yn yr ysgol ar adeg neu adegau sy'n gyfleus i'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd wedi gofyn amdano.
- (3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a ddarperir o dan yr adran hon annog disgyblion i roi sylw i werth bywyd teuluol.
- (4) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod yr addysgu a dysgu a ddarperir mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cydymffurfio â'r gofyniad yn yr adran hon.'.

Kirsty Williams

7

Page 29, after line 8, insert a new section –

'Mental health and emotional well-being

[] Duty to have regard to mental health and emotional well-being of children and young persons

- (1) A person within subsection (2) must, in exercising any function conferred by or under this Act, have regard to the mental health and emotional well-being of children and young persons likely to be affected by the exercise of the function.
- (2) The persons are –
 - (a) the head teacher of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (b) the governing body of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (c) a provider of funded non-maintained nursery education;
 - (d) the teacher in charge of a pupil referral unit;
 - (e) the management committee for a pupil referral unit;
 - (f) a person who provides teaching and learning for a child otherwise than at a maintained school, maintained nursery school or pupil referral unit by virtue of arrangements made under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56);
 - (g) a local authority in Wales.'.



Tudalen 29, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Iechyd meddwl a lles emosiynol

[] Dyletswydd i roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc

- (1) Rhaid i berson o fewn is-adran (2), wrth arfer unrhyw swyddogaeth a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon, roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc y mae arfer y swyddogaeth yn debygol o effeithio arnynt.
- (2) Y personau yw –
 - (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
 - (d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
 - (e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;
 - (f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);
 - (g) awdurdod lleol yng Nghymru.'

Suzy Davies

71

Page 29, after line 8, insert a new section –

'United Nations Conventions

[] Duty to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child

- (1) A relevant person exercising functions conferred by or under this Act in relation to a child or young person must have due regard to Part 1 of the United Nations Convention on the Rights of the Child adopted and opened for signature, ratification and accession by General Assembly resolution 44/25 of 20 November 1989 ("the Convention").
- (2) For the purposes of subsection (1), Part 1 of the Convention is to be treated as having effect –
 - (a) as set out for the time being in Part 1 of the Schedule to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 (nawm 2), but
 - (b) subject to any declaration or reservation as set out for the time being in Part 3 of that Schedule.
- (3) Any guidance issued under section 66 must make provision setting out what is required to discharge the duty in subsection (1); and subsection (1) is to be interpreted in accordance with any such provision.
- (4) In this section "relevant person" means –
 - (a) the head teacher of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (b) the governing body of a maintained school or a maintained nursery school;



- (c) a provider of funded non-maintained nursery education;
- (d) the teacher in charge of a pupil referral unit;
- (e) the management committee for a pupil referral unit;
- (f) a person who provides teaching and learning for a child, otherwise than at a maintained school, maintained nursery school or pupil referral unit, by virtue of arrangements made under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56);
- (g) a local authority in Wales.’

Tudalen 29, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

‘Confensiynau’r Cenhedloedd Unedig

[] Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

- (1) Rhaid i berson perthnasol sy’n arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i’w lofnodi, ei gadarnhau a’i dderbyn gan benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 (“y Confensiwn”).
- (2) At ddibenion is-adran (1), mae Rhan 1 o’r Confensiwn i’w drin fel pe bai’n cael effaith-
 - (a) fel y’i nodir am y tro yn Rhan 1 o’r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (mccc 2), ond
 - (b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y’u nodir am y tro yn Rhan 3 o’r Atodlen honno.
- (3) Rhaid i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan adran 66 wneud darpariaeth sy’n nodi’r hyn sy’n ofynnol er mwyn cyflawni’r ddyletswydd yn is-adran (1); ac mae is-adran (1) i gael ei dehongli yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o’r fath.
- (4) Yn yr adran hon, ystyr “person perthnasol” yw –
 - (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
 - (d) yr athro neu’r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
 - (e) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
 - (f) person sy’n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);
 - (g) awdurdod lleol yng Nghymru.’



Suzy Davies

72

Page 29, after line 8, insert a new section –

'United Nations Conventions

[] Duty to have regard to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities

- (1) A relevant person exercising functions conferred by or under this Act in relation to a disabled child or young person must have due regard to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities and its optional protocol adopted on 13 December 2006 by General Assembly resolution A/RES/61/106 and opened for signature on 30 March 2007 (“the Convention”).
- (2) The Convention is to be treated as having effect subject to any declaration or reservation made by the United Kingdom Government upon ratification, save where the declaration or reservation has subsequently been withdrawn.
- (3) Any guidance issued under section 66 must make provision setting out what is required to discharge the duty in subsection (1); and subsection (1) is to be interpreted in accordance with any such provision.
- (4) In this section, “relevant person” means –
 - (a) the head teacher of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (b) the governing body of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (c) a provider of funded non-maintained nursery education;
 - (d) the teacher in charge of a pupil referral unit;
 - (e) the management committee for a pupil referral unit;
 - (f) a person who provides teaching and learning for a child, otherwise than at a maintained school, maintained nursery school or pupil referral unit, by virtue of arrangements made under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56);
 - (g) a local authority in Wales.’

Tudalen 29, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig

[] Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

- (1) Rhaid i berson perthnasol sy'n arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc anabl roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i brotocol dewisol a fabwysiadwyd ar 13 Rhagfyr 2006 gan benderfyniad A/RES/61/106 y Cynulliad Cyffredinol ac a agorwyd i'w lofnodi ar 30 Mawrth 2007 (“y Confensiwn”).
- (2) Mae'r Confensiwn i'w drin fel petai iddo effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl ei gadarnhau, ac eithrio pan fo'r datganiad neu'r neilltuad wedi ei dynnu'n ôl wedi hynny.



- (3) Rhaid i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan adran 66 wneud darpariaeth sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (1); ac mae is-adran (1) i gael ei dehongli yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath.
- (4) Yn yr adran hon, ystyr "person perthnasol" yw –
 - (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
 - (d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
 - (e) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
 - (f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);
 - (g) awdurdod lleol yng Nghymru.'

Suzy Davies

73

Page 29, after line 8, insert a new section –

'Provision of information

[] Duty to provide information: have regard

- (1) A relevant person must provide such information in relation to the exercise by them of their have regard duty as the Welsh Ministers specify in regulations.
- (2) Regulations under this section must also specify –
 - (a) the form and manner in which the information is to be provided;
 - (b) the circumstances in which information is to be provided;
 - (c) the persons to whom information is to be provided.
- (3) In this section –

"have regard duty" means the duty to have regard or to have due regard in –

- (a) sections 12(2), 16(2), [section to be inserted by amendment 65], 53(2), 56(2), [section to be inserted by amendment 7], [section to be inserted by amendment 71], [section to be inserted by amendment 72] and 66(3);
